OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 379

# Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol a'u Symud ar draws Ffin) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

## RHAN 3

## Diwygiadau i is-ddeddfwriaeth mewn perthynas ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

### Diwygiadau i Reoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) 2002

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) 2002 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) yn lle'r diffiniad o "cynnyrch wedi'i gymeradwyo" (*"approved product"*) rhodder—

"ystyr "cynnyrch wedi'i gymeradwyo" ("*approved product*") yw cynnyrch y caniatawyd iddo gael ei farchnata yng Nghymru drwy—

(a) caniatâd a roddwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 111(1) o'r Ddeddf, neu

(b) awdurdodiad o dan y Rheoliad Bwyd a Bwyd Anifeiliaid;";

(b) hepgorer y diffiniad "y Comisiwn" (*"the Commission"*);

(c) hepgorer y diffiniad o "y Gyfarwyddeb Defnydd Amgaeëdig" (*"the Contained Use Directive"*);

(d) yn lle'r diffiniad o "y Gyfarwyddeb Gollyngiadau Bwriadol" ("*the Deliberate Release Directive*") rhodder—

"ystyr "y Gyfarwyddeb Gollyngiadau Bwriadol" ("*the Deliberate Release Directive*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 2001/18/EC ar ollwng yn fwriadol i'r amgylchedd organeddau a addaswyd yn enetig(**1**) fel yr oedd yn gymwys yn union cyn y diwrnod ymadael;";

(e) yn y diffiniad o "Penderfyniad Cyntaf y Weithdrefn wedi'i Symleiddio (planhigion cnwd)" (*"the First Simplified Procedure (crop plants) Decision"*), mewnosoder ar y diwedd "fel y mae'n gymwys yn union cyn y diwrnod ymadael";

(f) yn y man priodol mewnosoder—

"ystyr "cynnyrch wedi'i gymeradwyo cyn y diwrnod ymadael" ("*pre-exit approved product*") yw cynnyrch y caniatawyd, yn union cyn y diwrnod ymadael, iddo gael ei farchnata drwy ganiatâd a roddwyd yn unol ag Erthygl 15(3), 17(6) neu 18(2)

(**1**) OJ Rhif L 106, 17.4.2001, t. 1 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn (EU) 2018/350 (OJ Rhif L 67, 9.3.2018, t. 30).

o'r Gyfarwyddeb Gollyngiadau Bwriadol neu Erthygl 13(2) neu (4) o Gyfarwyddeb 1990;".

(3) Yn rheoliad 10, hepgorer y geiriau o "gollwng yn unol" hyd at "neu lle mae".

(4) Yn rheoliad 12(1)(ch)—

(a) hepgorer y geiriau o "ar y ffurf" hyd at "Bwriadol";

(b) ar y diwedd, mewnosoder ", ar y ffurf berthnasol a nodir yn yr Atodiad i Benderfyniad y Cyngor 2002/813/EC".

(5) Yn rheoliad 16—

(a) mae'r testun presennol yn dod yn baragraff (1);

(b) yn y paragraff (1) newydd, ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder—

"(aa) lle mae cynnyrch wedi'i gymeradwyo cyn y diwrnod ymadael yn cael ei farchnata yn ystod y cyfnod perthnasol at ddefnydd y mae wedi'i gymeradwyo ar ei gyfer cyn y diwrnod ymadael ac yn unol â'r cyfyngiadau a'r amodau yr oedd defnydd o'r cynnyrch hwnnw yn ddarostyngedig iddynt cyn y diwrnod ymadael;";

(c) yn lle is-baragraffau (b) a (c), rhodder—

"(b) lle mae organeddau a addaswyd yn enetig wedi'u rhoi ar gael ar gyfer gweithgareddau a reoleiddir o dan Reoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Defnydd Amgaeëdig) 2014(**2**);";

(d) yn is-baragraff (ch) ar y diwedd mewnosoder "neu";

(e) yn lle is-baragraff (d), rhodder—

"(d) lle mae organedd a addaswyd yn enetig a gynhwysir mewn cynnyrch meddygol a awdurdodir o dan Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012(**3**) neu Reoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2013(**4**) yn cael ei farchnata.";

(f) hepgorer is-baragraff (e);

(g) ar ôl y paragraff (1) newydd mewnosoder—

"(2) At ddibenion paragraff (1)(aa), ystyr "y cyfnod perthnasol" mewn perthynas â chynnyrch wedi'i gymeradwyo cyn y diwrnod ymadael, yw'r cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod ymadael, ac sy'n dod i ben ar y diwrnod y mae'r caniatâd o dan sylw yn peidio â bod yn ddilys."

(6) Yn rheoliad 17(2)—

(a) yn is-baragraff (b)—

(i) yn lle "Undeb Ewropeaidd" rhodder "Deyrnas Unedig";

(ii) hepgorer y geiriau o "neu i awdurdod cymwys arall" hyd at y diwedd;

(b) yn is-baragraff (e), ar ôl "Bwriadol" mewnosoder ", fel y'i darllenir gyda'r nodiadau cyfarwyddyd a nodir ym Mhenderfyniad y Comisiwn 2002/811/EC,";

(c) yn is-baragraff (g) yn lle'r geiriau o "a sefydlwyd gan y Comisiwn" hyd at y diwedd, rhodder "a nodir yn yr Atodiad i Benderfyniad y Comisiwn 2002/812/EC".

(7) Yn rheoliad 21—

(a) hepgorer is-baragraff (c);

(**2**) O.S. 2014/1663
(**3**) O.S. 201/1916, a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/235, 2013/1855, 2013/2593, 2014/323, 2014/324, 2014/490, 2014/1878, 2015/178, 2015/259, 2015/354, 2015/903, 2015/1503, 2015/1862, 2015/1879, 2016/186, 2016/190, 2016/696, 2017/715, 2017/1322, 2018/199, 2018/378.
(**4**) O.S. 2013/2033, a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/599, 2018/761.

(b) yn is-baragraff (dd) hepgorer y geiriau o "ac unrhyw sylwadau a wnaed" hyd at y diwedd.

(8) Yn rheoliad 22—

(a) ym mharagraff (3) hepgorer "a sicrhau bod ei benderfyniad yn cael ei gyfathrebu i'r Comisiwn";

(b) yn lle paragraff (6) rhodder—

"(6) Rhaid i'r wybodaeth a gyflwynir yn unol â pharagraff (5) gael ei darparu ar y ffurf a nodir yn yr Atodiad i Benderfyniad y Comisiwn 2003/701/EC.".

(9) Yn rheoliad 24—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn lle is-baragraff (b) rhodder—

"(b) gwahodd unrhyw berson, drwy gyfrwng cais a osodir ar y gofrestr, i gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag unrhyw risgiau o beri niwed i'r amgylchedd drwy'r marchnata, cyn diwedd cyfnod sydd i'w bennu nad yw'n llai na 60 diwrnod o'r dyddiad y daeth y cais i law Gweinidogion Cymru;";

(ii) yn lle is-baragraff (d), rhodder—

"(d) ystyried unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â'r risgiau o beri niwed i'r amgylchedd drwy'r marchnata, a wnaed i Weinidogion Cymru cyn diwedd y cyfnod a bennir yn unol â pharagraff (b);";

(b) hepgorer paragraff (2);

(c) ym mharagraff (3), yn lle "mharagraffau (1) a (2)" rhodder "mharagraff (1)";

(d) hepgorer paragraff (4).

(10) Yn rheoliad 25—

(a) yn lle paragraffau (1) i (4) rhodder—

"(1) Ni chaiff Gweinidogion Cymru gytuno ar gais am ganiatâd i farchnata organeddau a addaswyd yn enetig o dan adran 111(1) o'r Ddeddf fel y mae'n ymwneud â diogelu iechyd dynol heb gytundeb yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

(2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru gytuno ar gais am ganiatâd i farchnata organeddau a addaswyd yn enetig, neu ei wrthod, cyn diwedd y cyfnod a bennir ar gyfer sylwadau yn unol â rheoliad 24(1)(b) a (d) uchod ac, os ceir unrhyw sylwadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 24(1)(d) o fewn y cyfnod hwnnw, cyn bod Gweinidogion Cymru wedi ystyried y sylwadau hynny.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru roi gwybod i'r ceisydd am benderfyniad ar gais am ganiatâd i farchnata organeddau a addaswyd yn enetig cyn diwedd cyfnod o 90 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y daeth y cais i law a rhaid iddynt gynnwys, pan roddir gwybod am unrhyw wrthodiad i roi caniatâd, y rheswm dros y gwrthodiad hwnnw.

(4) Nid yw'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (3) yn cynnwys—

(a) unrhyw gyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig o dan adran 111(6) o'r Ddeddf bod rhagor o wybodaeth yn ofynnol mewn cysylltiad â'r cais, ac sy'n dod i ben ar y diwrnod y mae'r wybodaeth honno yn dod i law Gweinidogion Cymru, neu

(b) unrhyw gyfnod pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried sylwadau a gyflwynwyd gan unrhyw bersonau yn unol â rheoliad 24(1)(b), ar yr amod nad yw ystyriaeth o'r fath yn estyn y cyfnod o 90 o ddiwrnodau y cyfeirir ato ym mharagraff (3) am fwy na 30 o ddiwrnodau.";

(b) ym mharagraff (5)—

(i) hepgorer “o dan ddarpariaethau perthnasol yr UE”;

(ii) yn lle’r geiriau o “gatalog cenedlaethol swyddogol” hyd at y diwedd, rhodder “Restr Genedlaethol yn unol â rheoliad (3) o Reoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywogaethau) 2001(**5**)”;

(c) ym mharagraff (6), yn lle’r geiriau o “gofrestr genedlaethol swyddogol” hyd at y diwedd rhodder “y Gofrestr Genedlaethol yn unol â rheoliadau 6 a 7 o Reoliadau Deunyddiau Atgenhedlol y Goedwig (Prydain Fawr) 2002(**6**)”.

(11) Yn rheoliad 26 hepgorer paragraffau (1)(ch) a (2).

(12) Yn rheoliad 27—

(a) yn lle paragraff (1) rhodder—

“(1) Ni chaiff Gweinidogion Cymru gytuno ar gais i adnewyddu caniatâd o dan adran 111(1) o’r Ddeddf i farchnata organeddau a addaswyd yn enetig fel y mae’n ymwneud â diogelu iechyd dynol heb gytundeb yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.”;

(b) yn lle paragraff (2) rhodder—

“(2) Rhaid i Weinidogion Cymru roi gwybod i’r ceisydd am benderfyniad ar gais i adnewyddu caniatâd i farchnata organeddau a addaswyd yn enetig cyn gynted â phosibl a rhaid iddynt gynnwys, mewn unrhyw wrthodiad i roi caniatâd, y rheswm dros y penderfyniad hwnnw.”.

(13) Yn rheoliad 29(dd) yn lle’r geiriau o “i’r Comisiwn” hyd at “Aelod-wladwriaethau” rhodder “ar y ffurf berthnasol a nodir yn yr Atodiadau i Benderfyniad y Comisiwn 2009/770/EC”.

(14) Yn lle rheoliad 32 rhodder—

### “**32 Amrywio neu ddirymu caniatâd i farchnata**

(1) Ni chaiff Gweinidogion Cymru ond amrywio neu ddirymu caniatâd i farchnata organeddau a addaswyd yn enetig o dan adran 111(10) o’r Ddeddf onid ydynt wedi cael cytundeb deiliad y caniatâd pan fo gwybodaeth newydd wedi dod ar gael y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddai’n effeithio ar yr asesiad o’r risg o beri niwed i’r amgylchedd drwy ollwng yr organeddau.

(2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru ddirymu neu amrywio caniatâd i farchnata organeddau a addaswyd yn enetig o dan adran 111(10) o’r Ddeddf fel y mae’n ymwneud â diogelu iechyd dynol heb gytundeb yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.”.

(15) Yn rheoliad 33—

(a) ym mharagraff (1), yn lle “cynnyrch a gymeradwywyd” rhodder “marchnata cynnyrch wedi’i gymeradwyo cyn y diwrnod ymadael”;

(b) hepgorer paragraffau (3) i (5).

(16) Yn rheoliad 35—

(a) ym mharagraff (3)—

(i) yn is-baragraff (f), ar ôl “ollwng” mewnosoder “, neu farchnata,”;

(ii) ar ôl is-baragraff (f) mewnosoder—

(**5**) O.S. 2001/3510, a ddiwygiwyd gan O.S. 2004/2949, 2011/464, 2018/942: mae diwygiadau eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol.

(**6**) O.S. 2002/3026, y gwnaed diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

"(ff) y crynodeb o'r wybodaeth a gynhwyswyd yn y cais sy'n ofynnol gan reoliad 12(1)(ch) neu, yn ôl y digwydd, o'r cais sy'n ofynnol gan reoliad 17(2)(g).";

(b) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(3A) Yn ddarostyngedig i baragraff (4) ac i'r ffaith nad yw'r wybodaeth o dan sylw yn gyfrinachol, mewn perthynas â chais am ganiatâd o dan adran 111(1) o'r Ddeddf i farchnata organeddau a addaswyd yn enetig—

(a) enw a chyfeiriad y person sy'n gyfrifol am y marchnata, boed y gweithgynhyrchydd, y mewnforiwr neu'r dosbarthwr;

(b) enw masnachol arfaethedig y cynnyrch;

(c) enwau'r organeddau a addaswyd yn enetig sydd yn y cynnyrch, gan gynnwys enwau gwyddonol a chyffredin, pan fo hynny'n briodol, yr organeddau rhieniol, yr organeddau derbyn a'r organeddau rhoi;

(ch) marciau adnabod unigryw yr organeddau a addaswyd yn enetig sydd yn y cynnyrch;

(d) cod cyfeirnod ar gyfer y cais a neilltuwyd gan Weinidogion Cymru;

(dd) yr wybodaeth a gynhwysir yn y cais fel a bennir ym mharagraffau 3 a 7 o Atodlen 3;

(e) gwybodaeth am samplau o'r organeddau a addaswyd yn enetig sydd wedi eu storio, gan gynnwys y math o ddeunydd, ei nodweddion genetig a'i sefydlogrwydd, swm y deunydd mewn storfa a'r amodau storio priodol a'r oed silff.";

(c) ym mharagraff (7), ar ôl "roddwyd" mewnosoder "cyn y diwrnod ymadael";

(d) ym mharagraff (9) yn lle "gan y Comisiwn" rhodder "cyn y diwrnod ymadael gan y Comisiwn Ewropeaidd".

(17) Yn rheoliad 36 hepgorer paragraffau (8) a (10).

(18) Yn Atodlen 3—

(a) ym mharagraff (2) hepgorer "yn yr Undeb Ewropeaidd";

(b) ym mharagraff 5, hepgorer "o fewn yr Undeb Ewropeaidd";

(c) ym mharagraff 7, yn y frawddeg gyntaf hepgorer y geiriau o "at ddibenion" hyd at "addasiadau mewn organeddau,";

(d) ym mharagraff 8, hepgorer "sydd wedi'i sefydlu yn yr Undeb Ewropeaidd";

(e) ym mharagraff 14, yn lle "yn yr Undeb Ewropeaidd" rhodder "yng Nghymru".

(19) Yn Atodlen 4 ym mharagraff 6, hepgorer y geiriau o ", ac a fwriedir gofyn" hyd at y diwedd.